**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

15 Chwefror 2022

Annwyl Jane

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Adolygiad o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cynhaliwyd ein sesiwn graffu flynyddol gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar 7 Chwefror 2022.

Un o'r meysydd y buom yn ei drafod gyda'r Comisiynydd oedd yr adolygiad cyfredol o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* (y Ddeddf). Fel y nodwyd gennyf yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Gyllideb Ddrafft 2022-23, rydym yn pryderu o glywed am nifer y cyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd a'r effaith bosibl y byddai hyn yn ei chael ar gapasiti'r Comisiynydd.

Mae'n bwysig bod yr adnoddau a ddyrennir i'r Comisiynydd yn gymesur â'r gwaith y disgwylir i'w swyddfa ei wneud. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o wybodaeth am yr adolygiad hwn, gan gynnwys nifer y cyrff sy'n cael eu hystyried, ac a allech hefyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am eich ystyriaeth o'r amcangyfrif o gyllideb y Comisiynydd, sy'n gwneud cais am gynnydd sylweddol yn adnoddau'r Comisiynydd.

Yn ystod ein sesiwn graffu, mynegodd y Comisiynydd bryder am sylwadau a wnaed gan y cyn-Ysgrifennydd Parhaol wrth roi tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd. Pan ofynnwyd iddi a oedd wedi gorfod herio Gweinidog ynghylch anghysondeb rhwng polisi neu ddull yr oedd Gweinidog yn dymuno ei gymryd a'r Ddeddf, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol na allai feddwl am unrhyw enghreifftiau. A allech gadarnhau a ydych yn cytuno â'r asesiad hwn? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi pa systemau sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith i sicrhau bod ei busnes a'i hymddygiad yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

Jenny Rathbone
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol